

Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi

8 Mehefin 2018, Prifysgol Caerdydd Cofnodion

Yn bresennol:	Kellie Beirne (KB) (cadeirydd) Robin Williams (RW) David Wilkes (DW) Rhys Thomas (RT) David Notley (DN) Andy Middleton (AM) Kirsten Bound (KBo) Helen Swygart (HS)
Ymddiheuriadau:	Sue Bale (SB) Steve Smith (SS)
Yr Ysgrifenyddiaeth:	Alastair Davies (AD) Philippa Costello (PC)
Siaradwyr Gwadd:	Phil Allen (PA) (LIC) Sophie Howe (SH) (Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) Peter Halligan (PH) (LIC) Greg Green (GG) (LIC) Gavin George (GGe) (LIC)

Eitem ar yr Agenda		Camau Gweithredu
1	<p>Croeso</p> <p>Croesawodd KB aelodau'r Cyngor i 15fed cyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi (IACW).</p> <p>Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Esboniodd KB y byddai datganiad o ddi-ddordeb ar gyfer Prifddinas Arloesi Ewrop yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Caerdydd. Fodd bynnag, mae wedi bod yn anodd dewis prosiectau penodol i'w cynnwys oherwydd meini prawf cymhwysedd y prosiect.</p> <p>Rhoddodd KB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y cyfarfod diweddar a gynhaliwyd â Mick McGuire, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau Llywodraeth Cymru. Mae cyfle i IACW gyfrannu at drafodaethau ar sut i gynnwys elfennau arloesol yng Nghynllun Adfywio Economi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cadarnhaodd KB bod Adolygiad Reid bellach wedi'i gyhoeddi.</p> <p>Cytunwyd ar y cofnodion ac fe'u cymeradwywyd.</p> <p>Cyhoeddodd KB ei bod wedi cael llythyr ymddiswyddo gan Jessica Jones ac fe'i derbyniwyd.</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau a oedd yn bresennol nodi unrhyw achos uniongyrchol neu anuniongyrchol o wrthdaro buddiannau o ran yr</p>	

	<p>eitemau ar yr agenda. Ni chofnodwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p>	
2	<p>Dull SMART o ymdrin â Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>Tynnodd PA sylw at sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r 5 ffordd o weithio yn cael eu defnyddio a'u dehongli o fewn y gyfres o raglenni SMART. Disgrifiodd sut y mae'n cael ei defnyddio fel dogfen gyfeirio sy'n sail i weithgareddau cynaliadwyedd o fewn gweithrediad SMART. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bellach yn rhan annatod o'r holl ddogfennaeth SMART.</p> <p>Mae pecyn cymorth ar-lein ar ystyried llesiant wrth arloesi bellach yn cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei lansio ym mis Medi. Ei nod yw helpu busnesau i ddeall cynaliadwyedd a llesiant yn well a'u cynnwys yn eu gweithrediadau. Bydd yn hanfodol i fusnesau sy'n gwneud cais am gyllid drwy'r rhaglenni SMART.</p>	
3	<p>Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</p> <p>Diweddarodd SH y Cyngor am waith Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Esboniodd fod Swyddfa Archwilio Cymru a Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cyhoeddi adroddiadau yn ddiweddar i ddangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei rhoi ar waith dros y flwyddyn ddiwethaf yng Nghymru, ac maent yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed hyd yn hyn.</p> <p>Esboniodd nad oes gan y Comisiynydd ddyletswydd i gynghori cyrff cyhoeddus unigol am yr amcanion y maent wedi'u gosod, ond mae dyletswydd arni i gynghori'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus am eu cyd-amcanion. Fodd bynnag, o ran monitro ac asesu, nid oes ganddi unrhyw bwerau i fonitro ac asesu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ond gall monitro ac asesu cyrff cyhoeddus.</p> <p>Mae themâu'r amcanion sydd wedi'u gosod yn cynnwys iechyd a llesiant, sgiliau, tai, trafndiaeth ac ynni.</p> <p>Siaradodd y Comisiynydd am "Y Gallu i Greu", sef rhaglen bartneriaeth sy'n cynnwys 15 sefydliad gwahanol sy'n gweithio gyda Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac sydd â'r nod o esbonio ystyr ymarferol yr holl nodau wrth y cyrff cyhoeddus.</p> <p>Gwnaeth hefyd dynnu sylw at y rhaglenni 'Labordai Byw' a 'Cwmwl o Arloeswyr'. Mae 'Labordai Byw' yn cynnwys gweithio gyda chyrff cyhoeddus ar y problemau maent yn eu hwynebu. Mae hyn yn cael ei dreialu gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Bydd y rhaglen 'Cwmwl o Arloeswyr' yn cynnwys edrych am sefydliadau sydd wedi cyflawni pethau arloesol ar draws yr holl nodau. Byddai Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio cysylltu'r cwmnïau arloesol hyn â'r rhaglen 'Labordai Byw'.</p> <p>IACW i argymhell sefydliadau/pobl a allai ymuno â phrosiect 'Cwmwl o Arloeswyr'.</p>	IACW

	SH i gynnig cynrychiolydd o Swyddfa Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ymuno â'r Cyngor.	SH
4	<p>Innovate UK a'r Gweinyddiaethau Datganoledig</p> <p>Diweddarodd DW y Cyngor ar sut y mae IUK wedi bod yn rhan o waith y rhanbarthau a'r gweinyddiaethau datganoledig. Penododd IUK reolwyr rhanbarthol ar gyfer Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru am gyfnod o 6 mis i gychwyn, ond yn dilyn eu llwyddiant, mae'r swyddi hyn bellach yn swyddi parhaol amser llawn. Mae wedi bod yn flaenoriaeth i IUK gael swyddi yn y rhanbarthau sy'n deall yr ecosystem leol.</p> <p>Mae IUK yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig sydd wedi bod yn amhrisiadwy. Fe'u cynhelir er mwyn cael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd ym mhob rhanbarth.</p> <p>Mae UKRI bellach yn buddsoddi yn 'Strength in Places', sy'n canolbwyntio ar nodi cryfderau lleol ac sy'n gallu dangos effaith economaidd yn lleol.</p>	
5	<p>Y Prif Gyngorydd Gwyddonol</p> <p>Croesawyd PH i'r cyfarfod. Fe ymunodd â Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth. Cylch gwaith y Prif Gyngorydd Gwyddonol yw rhoi cyngor gwyddonol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Gyngorydd Gwyddonol yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weinidog ond hefyd i Julie James, Ken Skates a Kirsty Williams.</p> <p>Esboniodd PH ei fod yn cwrdd yn wythnosol â 23 Prif Gyngorydd Gwyddonol arall o adrannau'r DU yn Llundain.</p> <p>Soniodd y bydd ef yn diwygio ac yn addasu Cyngor Cyngori ar Wyddoniaeth Cymru(SACW) a'i fod yn dymuno ei ehangu er mwyn cynnwys technoleg ac arloesedd.</p> <p>Rhoddodd PH ddiweddariad am Adolygiad Reid a thynnodd sylw at y 3 argymhelliad. Lanswyd Adolygiad Reid yn Llundain ar 7 Mehefin.</p> <p>PC i anfon dolen a manylion yr Arloesiadur at PH.</p>	PC
6	<p>Manumix</p> <p>Diweddarodd GG y Cyngor am brosiect Manumix, prosiect Interreg 4 blynedd sy'n canolbwyntio ar werthuso offerynnau polisi arloesi. Cynhaliwyd y drydedd daith ddysgu yn Lithwania yn ddiweddar ac aeth DN, GGe a Nesta iddi a rhoi cyflwyniad ar yr Arloesiadur. Mae'r Dangosfwrdd wedi ei grybwyll fel enghraifft o arfer da.</p> <p>Bydd y 4edd Daith Ddysgu yn cael ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 10 ac 11 Gorffennaf. Mae ymweliadau safle i'r Ganolfan Feddygol a'r Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd wedi'u</p>	

	trefnu ar gyfer y diwrnod cyntaf. Bydd Cymru yn cael adolygiad cymheiriaid gan Lithwania ar yr ail ddiwrnod a fydd yn canolbwyntio ar werthuso polisi arloesi Cymru.	
7	<p>Y Diweddraf am IACW</p> <p>AD i wahodd Andrew Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr ESNR, Llywodraeth Cymru i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn clywed ei farn a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol, ac i drafod sut y gall IACW ei gefnogi.</p> <p>Gwahodd y 3 Prif Swyddog Rhanbarthol newydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Cynhaliwyd trafodaeth ar wahodd aelodau newydd posibl i ymuno â'r Cyngor. Cynigiwyd sawl enw i'w hystyried. Cytunwyd hefyd fod angen cyd-gadeirydd i weithio ochr yn ochr â Kellie. PC i anfon e-bost at y Cyngor i ofyn am wirfoddolwyr.</p> <p>Cytunwyd bod angen diweddaru a diwygio Cylch Gorchwyl a diben y Cyngor. PC i gylchredeg y Cylch Gorchwyl er mwyn iddo gael ei ddiwygio.</p> <p>Trafodwyd y pynciau pryfocio/pynciau i'w hystyried. Soniodd HS am y prosiect profi hysbysebu clyfar gan CityVerve ym Manceinion, gweler https://cityverve.org.uk am fwy o wybodaeth. Gellid defnyddio'r enghraifft hon fel pwnc pryfocio. PC i anfon e-bost at y Cyngor yn gofyn am fwy o awgrymiadau am bynciau.</p>	<p>AD</p> <p>PC</p> <p>PC</p> <p>PC</p> <p>PC</p>
8	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf IACW ar 21 Medi 2018 – y lleoliad i'w gadarnhau.</p>	